ejhales

AR WERTH

CYFLWR BLAENOROL



## AR GYFARWYDDID
## CYNGOR CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

**HEN LYFRGELL Y RHATH**
**HEOL CASNEWYDD / HEOL Y PEDAIR**
**LLWYFEN**
**CAERDYDD**
**CF24 0DF**





**TENDRAU ANFFURFIOL I DDOD I LAW**
**ERBYN DIWEDD Y DYDD 5.00PM**
**DDYDD IAU 30 TACHWEDD 2023**

## LLEOLIAD

Mae'r eiddo wedi'i leoli'n amlwg ar gyffordd Heol Casnewydd (A4161) a Heol y Pedair Llwyfen – dim ond 0.6 milltir i'r dwyrain o Ganol Dinas Caerdydd. Heol Casnewydd yw'r prif lwybr i Gaerdydd o'r dwyrain.

Mae'r ardal gyfagos yn cynnig cymysgedd o eiddo manwerthu, hamdden a phreswyl gyda meddianwyr gan gynnwys Tesco, Food Plus, JD Wetherspoon yn ogystal â nifer o fasnachwyr annibynnol.

Mae'r eiddo yn elwa o fod yn agos at Ysbyty Brenhinol Caerdydd ac Ysgol Gatholig San Pedr.

## DISGRIFIAD

Mae'r eiddo'n cynnwys hen adeilad Llyfrgell a adeiladwyd yn 1901 – dau lawr o uchder gyda blaen addurnedig amlwg – wedi'i orffen gyda charreg Caerfaddon o dan do teils ar oleddf. Mae yna wahanol estyniadau brics un llawr i'r ochr a'r cefn.

## LLETY

Mae gan yr eiddo yr ardaloedd mewnol crynswth canlynol:-


| | | |
|---|---|---|
| Prif Neuadd | 2,439 troedfedd sgwâr | 226.59 metr sgwâr |
| Neuadd Ochr | 1,430 troedfedd sgwâr | 132.85 metr sgwâr |
| Ategol | 1,008 troedfedd sgwâr | 93.64 metr sgwâr |
| **Cyfanswm** | **4,877 troedfedd sgwâr** | **453.08 metr sgwâr** |

## CYNLLUNIO

Mae'r eiddo'n elwa o fod â chaniatâd cynllunio ar gyfer ei ddefnydd blaenorol felly bydd unrhyw ddefnydd amgen yn destun cais cynllunio a chaniatâd newydd ynghyd ag unrhyw ymgynghoriadau statudol eraill efallai y bydd angen eu cynnal.

## RHESTR

Mae'r eiddo'n rhestredig Gradd II oherwydd ei werth allanol a grŵp. Mae copi o'r Rhestr ar gael ar gais.




## DALIADAETH

Rhydd-ddaliad.

## CYFRADDAU


Ar hyn o bryd mae gan yr eiddo werth ardrethol o £20,750.

Bydd unrhyw ddefnydd amgen yn arwain at ailasesiad o'r ardrethi a fydd, er mwyn eglurder, i'w hysgwyddo gan unrhyw feddiannydd / perchennog newydd.

## TYSTYSGRIF PERFFORMIAD YNNI

Ar hyn o bryd y sgôr TPY yw E:122.

Mae copi o'r Dystysgrif Perfformiad Ynni ar gael ar gais.




Mae'r cynllun uchod yn fynegol ar hyn o bryd ac yn fuan, mi fydd y ffin terfynnol wedi ei gadarnhau.

## SAFLE

Sylwch fod disgwyl i'r brif gastanwydden wrth ymyl y wedd orllewinol gael ei chadw a'i gwarchod fel y bo'n briodol a bydd angen i unrhyw gynigion adlewyrchu hyn.

## TAW

Mae'r holl ffigyrau heb gynnwys TAW lle bo hynny'n berthnasol.

## RHEOLIADAU GWYNGALCHU ARIAN

Fel rhan o'n rhwymedigaethau o dan Reoliadau Gwyngalchu Arian y DU 2017, bydd EJ Hales yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw denant / prynwr ddarparu prawf adnabod ynghyd ag unrhyw ddogfennau gofynnol eraill.





029 2037 8844 • www.ejhales.co.uk @ej_hales 28 Plas Windsor • Cardiff • CF10 3SG

## Y CYNNIG

Rydym yn gwahodd datganiadau o ddiddordeb i'w prynu yn gyffredinol, yn amodol ar gynllunio ac ymgynghori mewnol gan y Cyngor.

Dylai unrhyw gynigion a gyflwynir ddarparu gwybodaeth lawn am sail gyfreithiol a chynllunio'r pryniant.



## Y BROSES DENDRO

Ar gyfarwyddyd Cyngor Caerdydd, ceisir datganiadau o ddiddordeb drwy Broses Dendro Anffurfiol i ddod i law heb fod yn hwyrach na diwedd y dydd 5pm ddydd Iau 30 Tachwedd 2023.

Mae'n ofynnol i bob cynnig gael ei gyflwyno ar ffurf cynnig y gellir ei gael gan:-


Daniel Griffiths
EJ Hales
28 Plas Windsor
Caerdydd, CF10 3SG
dan@ejhales.co.uk


Dylai'r cynnig gynnwys:

1. Enw a chyfeiriad llawn y darpar brynwr.
2. Defnydd / Defnyddiau arfaethedig.
3. Profiad cefndir.
4. Cynllun Busnes (os yw ar gael).
5. Strwythur prynu arfaethedig.
6. Pris arfaethedig.
7. Manylion llawn y gwaith arfaethedig i'r safle a'r ardaloedd allanol. ynghyd â manylion am sut y caiff y strwythur a'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r statws rhestredig yr adeilad eu diogelu.
8. Manylion llawn unrhyw amodau.
9. Cyllid.
10. Llinellau amser dangosol.

## YMWELD

Drwy apwyntiad yn unig drwy'r asiantau gosod tai, E J Hales, cysylltwch â:


**Daniel Griffiths** • Ffôn: **07818 553350** • E-bost: **dan@ejhales.co.uk**
**Owen Cahill** • Ffôn **07824 638338** • E-bost: **owen@ejhales.co.uk**



Nid yw E J Hales na'r Gwerthwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw gamgymeriad, camddatganiad neu hepgoriad yn y manylion hyn. Bras yw'r mesuriadau ac at ddiben rhoi canllaw yn unig. Nid yw'r manylion hyn yn gyfystyr ag unrhyw gynnig neu gontract ac nid oes gan E J Hales nac unrhyw un y maent yn ei gyflogi unrhyw awdurdod i wneud unrhyw sylw na gwarant ynghlwm â'r eiddo.